

Cyngor Cymuned Cerrig y Drudion
Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28ain o Fedi 2021

Presenol Menai Hughes, Guto Jones, Trystan Humphreys, Ffuon Williams, Caerwyn Roberts, Maria Roberts (cadeirydd), Einion Edwards, Prys Ellis, John Jones, cyng Peter Lewis a Carol Humphreys (clerc).

Datgan Diddordeb – Y clerc yn datgan diddordeb oherwydd bod Aeron Humphreys wedi rhoi pris am waith draenio yn y fynwent. Bydd yn ymadael ar ystafell pan yn trafod y mater ar yr Agenda. Cofnodion – cadarnhawyd cofnodion blaenorol fel rhai cywir.

Materion yn codi

[1] Yr Heddlu – nid oedd yr heddlu yn bresenol.

[1.1] Is gadeirydd- pasiwyd gofyn i Trystan Humphreys os oedd ganddo ddiddordeb.

[1.2] Cyngor Conwy – nid yw y gwaith o osod cliced ar y giat heb ei wneud cysylltu eto ar Cyngor.

[1.3] Cyngor Sir Conwy- nid oes llawer o ddim yn digwydd efo cael arwyddion cyflymder yn y pentre clerc i gysylltu eto i drio cael mwy o ymateb.

[1.4] Cronfa Brenig – llythyr yn cadarnhau nad oeddem yn llwyddiannus efo ein cais am arian i ddraenio y fynwent.

Yr Agenda

[1.5] Torri gwair y fynwent - Dim ond un pris a gafwyd ar ol holi ambell un £1500.00, cytunwyd i gynnig y gwaith i Haydn Roberts a Brian Roberts, ond bod y pwyllgor yn gofyn os oes posib cael torri y gwair yn amlach na unwaith y mis yn ystod tyfiant yr haf.

[1.6] Haydn Roberts – bil am dorri gwair mynent yr Eglwys a Tyn Rhyd £200.00.

[1.7] Fynwent Draenio – Ar y pwynt yma bu ir clerc ymadael ar cyfarfod oherwydd ei bod yn datgan diddordeb ar y mater. Cymerwyd yr awena drosodd gan y cadeirydd Maria Roberts, lle bydd iddi gadw cofnod o beth a drafodwyd, trafod dau bris a ddaeth ger ei bron am y gwaith draenio yn y fynwent. Cafwyd pris gan Aeron Humphreys ac Iwan Price. Cynnig teg wedi ei wneud i gael y qotes yn ddi duedd. Ac ar ol cryn drafod daeth cynnig gan Ffuon eu bod yn cynnig y gwaith i Aeron Humphreys ac chefnogwyd y cynnig gan Prys Ellis. Gofynwyd hefyd i Aeron a fuasai yn llau (jettio) y draens blaenorol yn y pris.

[1.8] Canolfan Addysg Uwchaled – Gofynwyd am ddau gynyrchiolaeth i gynyrchioli ar y pwyllgor penodwyd John Jones a Menai Hughes.

[1.9] Cynllun chwarae yr Haf Sir Conwy – Cafwyd llythyr yn nodi bod y sesiwn dros yr haf yn Ngherrig y Drudion wedi bod yn llwyddiannus iawn ac bod rhai plant wedi cael ei gwrthod i fynychu oherwydd cynifer o blant a oedd posib ei dderbyn, cynnigwyd bod un sesiwn ychwanegol yn cael ei gynnig y flwyddyn nesaf.

Clerc i gysylltu ar cynllun chwarae i nodi ein bod yn barod fel Cyngor i ariannu i sesiwn y flwyddyn nesaf ac efallai cysylltu ac Llanfihangel a Llangwm i ariannu y sesiwn arall.

[2] Darren Millar – Cysylltu iddo ddod ir cyfarfod, gofyn iddo pa ddyddiadau sydd yn gyfleus iddo ac ein bod yn trefnu i wneud y gyfarfod yr un adeg.

[2.1] British Gas – anfoneb am drydan ir llyfrgell, £26.74 wedi ei dalu. Dywedodd Caerwyn eu bod wedi newid y cyflewngwr trydan i Scottish Power ac ei fod yn cael ei dalu fel DD or cyfrif y llyfrgell cymunedol.

[2.2] Cyflog y clerc Caerwyn – pasiwyd i Caerwyn Roberts dderbyn ei gyflog sydd yn ddyledus iddo or flwyddyn arianol llynnedd.

[2.3] Sedd Wag – Mae Ieuan Jones yn dymuno rhoi ei swydd fel cynghorydd i fynnu felly y clerc i wneud y trefniadau pwrpasol i hysbysu sedd wag.

[2.4] Bin ailgylch gwastraff gardd – nodwyd gan Caerwyn bod un or biniau brown wedi diflannu or fynwent, Caerwyn i gysylltu i ofyn am un arall yn ei le.

[2.5] Scottish Power – anfoneb am drydan ir ystafell y plwyf £30.14 pasiwyd iw dalu.

Cadeirydd.....